# Ordinhad 9

# Canghellor a Dirprwy Ganghellor

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 2.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 2026 |

# Ordinhad 9
# Canghellor a Dirprwy Ganghellor Swyddogaethau a Phenodi

1. Swyddogaethau a Phenodi

   i. Bydd y Canghellor yn swyddog lleyg a benodir gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am gyfnod o bedair blynedd fel arfer neu tan eu diswyddo, farwolaeth neu ymddiswyddiad cyn hynny.

   ii. Bydd y Dirprwy Ganghellor yn swyddog lleyg a benodir gan y Cyngor a bydd yn dal y swydd am gyfnod o bedair blynedd fel arfer neu tan eu diswyddo, farwolaeth neu ymddiswyddiad cyn hynny.

   iii. Bydd y Canghellor yn dyfarnu Graddau ac yn cyflwyno dyfarniadau ac anrhydeddau eraill y Brifysgol. Yn absenoldeb y Canghellor, ac yn ystod cyfnod pan fo'r swydd yn wag, bydd y Llywydd/Is-ganghellor, neu mewn ymgynghoriad â'r Llywydd/Is-ganghellor, bydd y Dirprwy Ganghellor(ion) yn gweithredu'r swyddogaeth hon.

   iv. Pan fydd swydd y Canghellor neu'r Dirprwy Ganghellor yn wag, bydd y Cyngor yn penodi pwyllgor dewis i ystyried y penodiad. Caiff y swydd wag ei hysbysebu'n allanol.

   v. Bydd pwyllgor dewis y Canghellor yn cynnwys:
      a. Cadeirydd y Cyngor
      b. Llywydd/Is-ganghellor;
      c. Hyd at dri aelod annibynnol o'r Cyngor;
      d. Aelod staff sy'n aelod o'r Cyngor;
      e. Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)

   vi. Bydd pwyllgor dewis y Dirprwy Ganghellor yn cynnwys:
      a. Cadeirydd y Cyngor
      b. Llywydd/Is-ganghellor;
      c. Hyd at dri aelod annibynnol o'r Cyngor;
      d. Aelod staff sy'n aelod o'r Cyngor;
      e. Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)

   vii. Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio cyfarfodydd y pwyllgor dewis oni bai ei fod yn dymuno cael ei ystyried/ei hystyried ar gyfer y swydd wag, ac os felly bydd yn esgusodi ei hun o'r pwyllgor dewis a bydd y Canghellor, neu'r Dirprwy Ganghellor sydd wedi gwasanaethu hiraf, yn cadeirio.

   viii. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn gweithredu fel Ysgrifennydd y pwyllgor dewis.

   ix. Bydd y pwyllgor dewis yn ymgynghori'n briodol ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

2. Cymhwyster ar gyfer Ailbenodi

i. Bydd y Canghellor yn gymwys i'w ailbenodi am un tymor arall o hyd at bedair blynedd fel arfer a chaiff wasanaethu am gyfanswm o ddau dymor yn unig.

ii. Bydd Dirprwy Ganghellor yn gymwys i'w ailbenodi am un tymor arall o hyd at bedair blynedd fel arfer a chaiff wasanaethu am gyfanswm o ddau dymor yn unig.

iii. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ystyried ailbenodi i ail dymor yn y swydd ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor. Caiff unrhyw un sy'n cael ei ystyried ar gyfer eu hailbenodi eu heithrio o'r pwyllgor.

3. Swyddogaethau'r Canghellor a'r Dirprwy Ganghellor(ion)

Bydd y Canghellor, mewn swyddogaeth er anrhydedd, yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor a fydd yn cynnwys:

i. Ymgymryd â swyddogaeth lysgenhadol i'r Brifysgol a gytunir gan y Cadeirydd a'r Llywydd/Is-ganghellor.
ii. Llywyddu yn seremonïau graddio'r Brifysgol.

Bydd Dirprwy Ganghellor(ion) y Brifysgol, mewn swyddogaeth er anrhydedd, yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a bennir gan y Cyngor gan gynnwys yn ychwanegol:

i. Swyddogaethau fel y bo'r Canghellor yn eu dirprwyo; a
ii. Holl swyddogaethau'r Canghellor yn absenoldeb y Canghellor neu yn ystod cyfnod pan fo'r swydd honno'n wag.

4. Ymddiswyddo / Diswyddo

i. Gall y Canghellor / Dirprwy Ganghellor ymddiswyddo trwy roi rhybudd ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol.

ii. Os yw'r mwyafrif o blith y Canghellor, y Dirprwy Ganhgellor(ion) (ac eithrio'r unigolyn dan sylw) Cadeirydd y Cyngor a'r Llywydd/Is-ganghellor yn credu y dylid diswyddo'r unigolyn yn eu barn hwy am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

a) methiant sylweddol i gyflawni dyletswyddau eu swydd yn ystod y deuddeng mis blaenorol; neu
b) methiant ac esgeulustod sylweddol i gyflawni dyletswyddau'r swydd; neu
c) ymddwyn mewn modd amhriodol i'r Canghellor/Dirprwy Ganghellor; neu
d) unrhyw reswm da arall a ddiffinnir yn Ordinhad 1, paragraff 1.4.

x. yna, rhaid sefydlu Panel sy'n cynnwys tri aelod annibynnol o'r Cyngor, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd y Cyngor, i ystyried yr achos a gwneud argymhelliad i'r Cyngor a ddylid ei gadarnhau neu ei wrthod. Ysgrifennydd y Brifysgol fydd yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Pwyllgor. Caiff y Canghellor / Dirprwy Ganghellor (fel y bo'n berthnasol) ei ddiswyddo os bydd mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor yn cytuno â phenderfyniad i wneud hynny.